CYNGOR CYMUNED LLANWNDA

COFNODION - MAI 2016
CYFARFOD BLYNYDDOL

DYDDIAD	Nos Fercher, 18 Mai 2016
AMSER	7.00pm
LLEOLIAD	**Canolfan Llanwnda**

a)	**Croeso** Croesawyd pawb gan y Cadeirydd Neal Williams. Yn bresennol roedd Les Williams, Elwyn Jones, Michelle Williams, Nerys Evans, Elin Evans, Tom Ellis, Gwilym Ll Williams, Gwilym V Thomas,
b)	**Ymddiheuriadau** Rhys Owen, Jason Hunt. Nid oedd y Cyng Aeron M Jones yn bresennol.
c)	**Datgan Buddiant** Dim i'w nodi.
d)	**Cadarnhau cofnodion 20 Ebrill 2016** Derbyniwyd fel cofnod cywir ond angen nodi beth oedd y ceisiadau cynllunio.
e)	**Materion i'w trafod:** **a) Ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd** Yn unfrydol, etholwyd Rhys Owen fel Cadeirydd a Nerys Evans fel Is-Gadeirydd. Diolchwyd i Neal Williams am ei waith fel Cadeirydd dros y flwyddyn. Cytunwyd i'r Aelodau o'r Is-Bwyllgorau perthnasol barhau yn y rolau hyn. **b) Cydweithio gyda Cynghorau Cymuned Cyfagos** RO, EL, JH a LW wedi eu henwebu i fynychu y cyfarfod cyntaf. LW yn nodi fod OP Huws wedi cysylltu yn nodi fod y cyfarfod cyntaf nos iau yma 19 Mai. Bydd angen adrodd yn ol yn y cyfarfod nesaf. Nodwyd fod llawer o feysydd posib lle gallwn gydweithio i ceisio lleihau gwariant. **c) Brigau ar Llwybr Bryngwyn (JH)** JH ddim yn bresennol i drafod. **d) Sbwriel ar Lon Eifion (EE)** Clerc wedi cysylltu gyda'r Swyddog cyfrifol yn Cyngor Gwynedd sef Robin Perkins, roedd yn cytuno fod angen biniau a fod y gost o brynu bin yn weddol isel ond fod costau wedyn o ran yr angen i wagio. Mae am drafod gyda'i Reolwr a dod yn ol gyda ateb mwy pendant. **e) Gwaith Lampau newydd yn Ffrwd Cae Du (EE)** Clerc wedi adrodd wrth Colin Worth, Rheolwr Goleuo Stryd Cyngor Gwynedd fod llanast wedi ei adael ar ol gwaith diweddar. Ymateb yn nodi y bydd Cyngor Gwynedd yn trefnu clirio'r safle. **f) Arwyddion Ci ar Dennyn, Rhostryfan (MW)** Clerc wedi trefnu fod Wyn Williams, Contractwr yn mynd yno i droi'r arwydd fel ei fod yn gwynebu'r ffordd arall.

	g) Gyrru drwy pentref Rhosgadfan, yn benodol heibio stad Bro Cadfan (LW) LW yn adrodd fod problemau gyrru heibio stad Bro Cadfan. Clerc wedi adrodd wrth Cyngor Gwynedd ac yn disgwyl ymateb. Cynnig dod ar cyflymder lawr o 30 i 20, mwy o blant yn stad Bro Cadfan rwan. **h) Giat rhwng Cefn Hendre a Traean (TE)** Clerc wedi adrodd wrth Gerallt Williams, Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd am gyflwr y giat, mae Gerallt am drefnu i ymweld ac adrodd yn ol. **i) Problemau parcio ger y Bwrdd Dwr, Dinas (RO)** Clerc wedi adrodd ar y problemau i'r Uned Draffig yn Cyngor Gwynedd ac yn disgwyl ymateb. **j) Tap Mynwent Cefnfaes (EJ)** Clerc wedi cysylltu gyda Kenyon Parry, mae am ymgymryd ar gwaith a defnyddio contractwr ar gyfer y gwaith tyllu dan ddaear sydd ei angen. Mae tipyn o waith angen ei wneud gan fod y broblem o dan ddaear. Clerc i ofyn am dap sydd yn troi ei hun i ffwrdd.
6.	**Derbyn Adroddiadau** **Llwybr Waun bant** – Clerc yn adrodd fod Cyngor Gwynedd dal heb brosesu y cais oherwydd diffyg adnoddau. Maent wedi adrodd y gallai fod mor hwyr a dechrau 2017 arnynt yn gallu edrych arno. **Bin Mynwent Cefnfaes** – Clerc yn nodi nad ydy Cyngor Gwynedd wedi bod yn gwagio'r bin yn ddiweddar, mae hyn oherwydd fod pobl yn rhoi sbwriel anaddas yn y bin brown. Drwy gysylltu gyda Cyngor Gwynedd nodwyd y bydd angen talu ffi masnachol gan mai mynwent ydyw. Clerc i aros i dderbyn pris am hyn gan Cyngor Gwynedd a cymharu gyda cwmniau eraill. Heyd – tydy'r giat ddim yn agor yn iawn, angen i'r Clerc drefnu i Wyn gael golwg arni.
7.	**Is-bwyllgorau** a) Is Grwp Cyllid Nodwyd fod yr Is-Grwp wedi cyfarfod heno am 6yh, roedd y llyfrau i gyd yn balansio a roedd yr Aelodau yn fodlon fod pob taliad wedi ei gyfrifo amdano. Cytunwyd i dderbyn y cyfrifon a diolchwyd i'r Clerc am ei gwaith. Bydd y Clerc yn gyrru y wybodaeth i John yr Archwiliwr Mewnol erbyn 3ydd Mehefin.
8.	**Materion Ariannol** a) Adroddiad Ariannol **Sefyllfa Ariannol y Cyngor ar 17 Mai 2016** **1. Cyfrif Cadw** Balans a ddygwyd ymlaen: **10,132.61** + Praesept Ebrill 9,100.00 **Balans ar derfyn busnes 17 Mai 2016 19232.61** **2. Cyfrif Siec** Balans a ddygwyd ymlaen: **3,501.92** - 101363 Cae Chwarae Rhosgadfan 1,000.00 - 1010362 Cyngor Gwynedd 1.00 - 101358 Wyn Williams 409.50 - 101354 Designer Signs 88.80 - 101360 Caryl E Lewis 438.51 **Balans ar derfyn busnes 17 Mai 2016: 1,564.11** **Taliadau i'w cytuno arnynt yng nghyfarfod 18 Mai 2016:**

	Cyflog Clerc Mai 438.51 Cyllid y Wlad Mai 99.00 **Cyfanswm 537.51** b) **Cyfnod Mamolaeth Clerc** Cytunwyd i ganslo cyfarfod mis Gorfennaf a nid oes cyfarfod yn mis Awst beth bynnag. Cytunwyd yn unfrydol i'r Clerc dderbyn taliad llawn ym mis Gorfennaf ac Awst gan y bydd yn parhau i wneud y gwaith.
9.	**Materion Cynllunio** Cais i ddymchwel Arman Bengal, Dinas – pam nad yw'r safle yn ddiogel ar hyn o bryd? Cytundeb i wrthwynebu'r cais, mae'r safle am fod yn flerach drwy dynnu i lawr.
10.	**Gohebiaeth a chylchgronnau** Arwyddion solar Rhosgadfan a Ffrwd Cae Du – Clerc i gael pris gan Cwmni Gemini Solar ar gyfer eu trwsio. Trefniadau ad-dalu costau llwybrau cyhoeddus – diweddariad gan cyngor Gwynedd yn nodi y bydd gostyngiad o 25% flwyddyn nesaf. Ardaloedd cymunedol – Bwrdd Gwasanaethau Lleol – Cynnig ar sefydlu 8 ardal. Llythyr ar ran trigolion Penrallt, Saron – Llythyr yn gofyn am gefnogaeth i wneud y llecyn gwair o flaen y tai yn fan parcio. Clerc i holi cyngor Gwynedd pwy sydd bia'r tir, cyngor cymuned yn cefnogi y cais i wneud man parcio.
11.	**Materion Cyfarfod Nesaf** EJ – Lein Bryngwyn, eisiau trafod yn y cyfarfod nesaf. NE – Torri gwair y fynwent – problemau, ddim yn gorffen a ddim yn gwneud mor rheolaidd ag y dylai, angen gyrru llythyr at y contractwr. NE – Bedd angen ei glirio – dal heb wneud, angen llythyru'r teulu yn gofyn iddynt glirio. GLLW – Cwyn am Bryn Glas, Rhos Isaf – coed yn hongian drosodd i'r lon. Loriau yn cael trafferth pasio. MW – Pasio i lawr am Jericho, ceir yn parcio ar y palmant, plant methu pasio pan yn ceisio cerdded lawr at y cae chwarae. **Dyddiad: 15 Mehefin 2016** **Lleoliad: Ysgol Rhosgadfan**